Hwb Gwybodaeth
Knowledge Hub

Pecyn cymorth i werthuso gwaith ymgysylltu

Gwerthuso eich arferion ymgysylltu gan ddefnyddio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.

Gan **Alain Thomas** a **Vikki Butler**

Cynnwys

Cyflwyniad **2**

Y pecyn cymorth hwn 2
Diolchiadau 3
Pam gwerthuso gwaith ymgysylltu 3
Gwerthuso gwaith ymgysylltu – ble rydym ni nawr 3

Tri cham i werthuso gwaith ymgysylltu **4**

Cam un – penderfynu pwy i'w gynnwys a sut i'w cynnwys 4
Cam dau – gwerthuso gwaith ymgysylltu 5
Cam tri – rhannu'r dysgu

Atodiad Un: Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a chwestiynau ysgogi gwerthuso cyfatebol 9

Atodiad Dau: Astudiaeth achos – Gwerthusiad o Ymgynghoriad Astudiaeth Hyfywedd Bae Caswell 12

CYFLWYNIAD

Y pecyn cymorth hwn

Rydych chi newydd orffen eich proses ymgysylltu, neu ydych chi?

'Egwyddor 10: Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses ymgysylltu.'

Mae'n ddigon anodd cynllunio a chynnal proses ymgysylltu'n iawn felly nid yw'n syndod nad yw pawb yn rhoi egwyddor 10, ynglŷn â gwerthuso a dysgu, ar waith ar hyn o bryd.

Nod y pecyn cymorth hwn yw gwneud y broses o werthuso gwaith ymgysylltu mor hawdd â phosibl a galluogi pawb i fyfyrio ar eu harferion a dysgu a rhannu gwersi ar gyfer y dyfodol.

Mae'n disgrifio proses syml, tri cham i helpu ymarferwyr i werthuso eu gweithgareddau ymgysylltu gan ddefnyddio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru.

Datblygwyd y 10 Egwyddor Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar y cyd rhwng asiantaethau'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, dan arweiniad CGGC yn 2011. Cafodd yr egwyddorion eu hadolygu a'u hailgyhoeddi drwy broses debyg yn 2022.

Mae'r Egwyddorion Cenedlaethol yn ganllaw arfer da i alluogi gwaith ymgysylltu effeithiol, moesegol ac ystyrlon â'r cyhoedd a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Mae pob egwyddor wedi'i hysgrifennu fel datganiad syml ac wedi'i datblygu drwy'r nodiadau canllaw. Mae'r Egwyddorion Cenedlaethol wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan weithwyr proffesiynol ac ymarferwyr mewn ystod eang o leoliadau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, swyddogion y llywodraeth, llunwyr polisi, gweinyddwyr cyhoeddus, cyrff sy'n darparu gwasanaethau ac ymarferwyr ymgysylltu.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys rhai cwestiynau ysgogol yn seiliedig ar yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a allai fod yn ddefnyddiol i chi (Atodiad Un).

Mae'r pecyn cymorth yn cynnig canllawiau hanfodol i gynnal gwerthusiad syml o'ch arferion ymgysylltu. Mae'n rhan o gyfres o adnoddau sydd wedi'u hadolygu, ac mae wedi'i ategu gan **ganllaw gwerthuso newydd TSSW**. I'r rheini sydd eisiau dysgu mwy am arferion gwerthuso da yn gyffredinol, mae gwybodaeth yn y canllaw am nifer o agweddau ar arferion da i helpu i gynllunio a chynnal gwerthusiad effeithiol, gan gynnwys; beth a phryd i werthuso, moeseg gwerthuso, cynnal ymchwil ansoddol a meintiol, termau a diffiniadau allweddol, astudiaethau achos a chyfeiriadau at ragor o wybodaeth.

Mae'r pecyn cymorth hwn hefyd yn cynnwys astudiaeth achos (Atodiad Dau), o werthusiad

o ymgynghoriad a gynhaliwyd yng Nghymru yn 2024, sy'n dangos yr hyn y gellid ei ystyried yn fodel realistig a chyraeddadwy ar gyfer gwerthuso darn o waith ymgysylltu.

Diolchiadau

Ariannwyd y canllaw hwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'i reoli gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a gomisiynodd Ymgynghoriaeth Alain Thomas a C.A.R.P. Collaborations i'w ddatblygu. Rydym yn ddiolchgar i Gyngor Dinas Abertawe ac Innes Associates am gael defnyddio’r astudiaeth achos, ac i’r unigolion hynny a ddarllenodd ddrafftiau cynharach o’r pecyn cymorth i gynnig adborth adeiladol.

Pam gwerthuso gwaith ymgysylltu?

Fel arfer mae tri phrif bwrpas ar gyfer gwerthuso: atebolrwydd, gwybodaeth a datblygiad.

O ran **gwybodaeth a datblygiad,** mae'n amlwg yn bwysig nodi beth wnaethoch chi'n dda, a ble y gallech chi fod wedi gwneud yn well, er mwyn eich helpu chi ac eraill i wella eu harferion ymgysylltu yn y dyfodol. Dyma rai enghreifftiau o pam mae datblygu gwybodaeth a datblygiad ymhellach yn bwysig:

- Deall sut mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn profi’r ymgysylltiad a sicrhau bod y gweithgareddau ymgysylltu yn addas i'r bobl roeddech chi eisiau ymgysylltu â nhw
- Rhannu buddion y gweithgaredd gydag eraill, gan ddisgrifio'r hyn a wnaethoch fel y gall eraill ddysgu
- Cefnogi cynllunio a datblygu ar gyfer gwaith ymgysylltu pellach
- Deall yr effaith y mae’r ymgysylltu wedi'i chael
- Cadw i fyny ag anghenion newidiol ar gyfer ymgysylltu ac arallgyfeirio yn unol â hynny

O ran **atebolrwydd**, gall fod yn ddefnyddiol gallu dangos eich bod wedi cynnal proses ymgysylltu effeithiol, er enghraifft i'r bobl rydych chi'n ymgysylltu â nhw ac i gomisiynwyr presennol neu ddarpar gomisiynwyr. Dyma rai rhesymau sy'n egluro ychydig mwy pam mae dangos atebolrwydd yn bwysig:

- Rhoi llais i'r bobl dan sylw, fel eu bod yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt, eu bod yn cael dweud eu dweud ac yn gallu gwneud awgrymiadau
- Cofnodi beth ddigwyddodd, a sut y gwariwyd arian
- Profi i gyllidwyr fod y gweithgaredd wedi bod yn werth chweil
- Gallu dangos tystiolaeth o’r hyn sydd wedi digwydd a’r gwahaniaeth y mae wedi’i wneud
- Gwella cysylltiadau rhwng y mudiad a'r rhai sy'n ymwneud â’r gweithgareddau ymgysylltu
- Cofnodi cyflawniadau a dathlu cerrig milltir allweddol

Mae deddfwriaeth yng Nghymru hefyd sy'n berthnasol i ymgymryd â gwaith ymgysylltu a chyfranogiad, gweler enghraifft atodiad dau o Lawlyfr ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd[1] am drosolwg o ddeddfwriaeth benodol yng Nghymru sy'n berthnasol i ymgymryd â gwaith ymgysylltu a chyfranogi.

Mae lefel gynyddol o ddeddfwriaeth a pholisi cysylltiedig sy'n cwmpasu Gofal Cymdeithasol, Iechyd, yr Amgylchedd a chynllunio gwasanaethau statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau gynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau a darparu'r gwasanaethau hynny. Mae yna ddyletswyddau hefyd i sicrhau bod Hawliau a Thegwch yn cael eu cynnal wrth ddarparu gwasanaethau a bod llesiant yn cael ei wella.

Felly, dylech hefyd sicrhau eich bod yn cyflawni eich rhwymedigaethau statudol ac efallai yr hoffech ddangos eich bod yn dilyn arferion gorau ac yn dogfennu sut y gallwch arloesi i wella eich gwaith i gynnwys pobl ymhellach.

Gwerthuso gwaith ymgysylltu – ble rydyn ni nawr

Mae'r pecyn cymorth hwn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth mai ychydig iawn o bobl sy'n gwerthuso eu gweithgareddau ymgysylltu ar hyn o bryd. Felly mae'n nodi proses syml iawn, tair cam, i'w gwneud hi'n realistig ac yn gyraeddadwy i bawb werthuso eu gwaith ymgysylltu heb dreulio llawer iawn o amser ac adnoddau gwerthfawr eraill. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn awgrymu beth fyddai'r arferion gorau i'r rhai sydd eisiau gwneud ychydig mwy o ran gwerthuso gwaith ymgysylltu.

TRI CHAM I WERTHUSO GWAITH YMGYSYLLTU

1.

Cam un: Penderfynu pwy i'w gynnwys a sut i'w cynnwys

Rydych chi newydd orffen eich proses ymgysylltu, wedi dadansoddi'r canfyddiadau a naill ai wedi'u defnyddio i gyd-gynhyrchu camau gweithredu (cyd-gynhyrchu) neu wedi darparu eich casgliadau a'ch argymhellion i'r bobl a fydd yn penderfynu sut i weithredu arnynt (ymgynghori). Rydych chi hefyd wedi rhoi adborth ar ganlyniadau eich gwaith ymgysylltu i bawb a oedd yn rhan ohono. Nawr yw'r amser i werthuso a dysgu o'ch gwaith ymgysylltu.

[1] https://knowledgehub.cymru/all-courses/manual-for-public-engagement/

Bydd angen sicrhau bod gan y rhai sy'n gwerthuso'r broses ymgysylltu ddigon o wybodaeth am sut y cynlluniwyd a chynhaliwyd y gwaith ymgysylltu.

Os ydych chi wedi bod yn rhan o broses cynllunio a chynnal yr ymgysylltiad y ffordd symlaf a chyflymaf fyddai gwneud y gwerthusiad eich hun a byddai hynny'n well na pheidio â'i wneud o gwbl. Ond, gofynnwch i chi'ch hun a allwch chi gynnwys pobl eraill yn gymharol hawdd.

Er enghraifft:

- Allwch chi gynnwys unrhyw un arall o'r tîm a gynhaliodd y gwaith ymgysylltu?
- A wnaethoch chi weithio gydag unrhyw asiantaethau partner? Os felly, a oes gan unrhyw un ohonynt ddigon o wybodaeth ac a allai gyfrannu eu safbwynt nhw at y gwerthusiad?
- Os gwnaethoch chi gomisiynu'r gweithgaredd ymgysylltu, a oes rhywun y gallech ei gynnwys o'r corff comisiynu sy'n wybodus am yr hyn a wnaethoch?
- A oedd unrhyw aelodau o'r grwpiau y gwnaethoch chi ymgysylltu â nhw a oedd yn arbennig o awyddus ac a allai fod eisiau eich helpu i asesu sut wnaethoch chi o'u safbwynt nhw?

Peidiwch â chymhlethu pethau'n ormodol - dylid anelu at chwech o bobl ar y mwyaf i gymryd rhan yn y gwerthusiad.

Ar ôl i chi benderfynu pwy i'w gynnwys, mae angen i chi farnu faint y dylech chi geisio eu cynnwys (neu faint y byddan nhw eisiau cymryd rhan).

Y ffordd hawsaf fyddai eu cynnwys nhw fel adolygwyr. Byddech chi'n gwerthuso'r ymgysylltiad, yn anfon eich rhesymeg a'ch casgliadau atynt, ac yn gofyn am eu sylwadau. Yna byddech chi'n diwygio'ch gwerthusiad i ystyried yr hyn a ddywedon nhw.

Byddai dull gwell, ond mwy dwys o ran adnoddau, yn dod â phobl ynghyd wyneb yn wyneb (neu ar-lein) i werthuso'r broses ymgysylltu.

Arferion gorau

Arfer gorau fyddai cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid a oedd yn rhan o'r broses ymgysylltu: o'r tîm ymgysylltu, grwpiau rhanddeiliaid roeddech chi'n ymgysylltu â nhw, partneriaid roeddech chi'n eu cynnwys a'r comisiynwyr (os nad yw'r rhain eisoes wedi'u cynnwys yn y rhestr flaenorol). Byddai hyn yn sicrhau eich bod yn manteisio ar amrywiaeth o safbwyntiau.

Arfer gorau hefyd fyddai cynnwys y rhanddeiliaid hyn wrth gyd-gynhyrchu'r gwerthusiad, efallai drwy weithdy wedi'i hwyluso.

2.

Cam dau: Gwerthuso gwaith ymgysylltu

Bydd cam dau yn cynhyrchu adroddiad byr (astudiaeth achos) rhwng 1500 a 2500 o eiriau. Bydd hwn yn adnodd pwysig i lywio eich arferion ymgysylltu yn y dyfodol felly gwnewch yn siŵr ei fod wedi'i ffeilio lle gall pawb a allai fod angen cyfeirio ato yn y dyfodol ddod o hyd iddo'n hawdd.

Ar ôl i chi amlinellu'r trosolwg hwn, defnyddiwch yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd fel strwythur ar gyfer eich gwerthusiad o'r gwaith ymgysylltu.

Cyfeiriwch at bob egwyddor yn ei thro a nodwch beth wnaethoch chi i geisio ei chyflawni. Yna, gwnewch asesiad o ba mor llwyddiannus oeddech chi wrth gyflawni'r egwyddor. Mae atodiad dau yn awgrymu rhai cwestiynau ysgogol ar gyfer pob egwyddor a allai fod yn ddefnyddiol i chi.

Gallai penawdau i strwythuro eich asesiad o bob egwyddor fod fel a ganlyn:

- Beth weithiodd yn dda
- Beth na weithiodd cystal/beth fyddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Ar ôl i chi ddadansoddi eich gweithgareddau a gwneud eich asesiad, defnyddiwch raddfa i roi sgôr am ba mor llwyddiannus oeddech chi.

Er enghraifft:
5 = Bron yn gwbl lwyddiannus
4 = Llwyddiannus i raddau helaeth
3 = Digon llwyddiannus
2 = Rhai arwyddion o lwyddiant
1 = Dim arwyddion gwirioneddol o lwyddiant

Pan fyddwch chi'n ysgrifennu eich nodiadau ceisiwch beidio ag ysgrifennu gormod, dylai 100 i 200 gair fesul egwyddor fod yn ddigon gan eich bod chi eisiau i bobl eu darllen. Ond mae ein profiad yn awgrymu y gallai fod yn anodd cadw at y terfyn geiriau a awgrymir yn achos rhai egwyddorion.

Os ydych chi'n cynnal y gwerthusiad ar eich pen eich hun, rhannwch eich dadansoddiad ansoddol ysgrifenedig, y casgliadau a'r sgoriau gyda'ch adolygwyr.

Os ydych chi'n gwerthuso fel tîm drwy drafodaeth grŵp, gwnewch yn siŵr bod rhywun yn ysgrifennu'r sgoriau, a'r dadansoddiad a'r casgliadau, ac yn eu dosbarthu i aelodau'r grŵp am eu barn a'u sylwadau terfynol.

Byddwch yn barod i adolygu'r sgôr a'ch casgliadau yn dibynnu ar yr hyn sy'n dod i'r amlwg o'r broses neu'r drafodaeth adolygu.

Arferion gorau

Pe baech chi'n anelu at arfer gorau, byddech chi wedi dod â grŵp o bobl ynghyd i helpu i gynllunio'r gwerthusiad, cyn i'r broses ymgysylltu ddechrau. Byddech wedi cynnwys y grŵp yn y broses o ddychmygu sut beth fyddai llwyddiant eich proses ymgysylltu, mewn perthynas â phob un o'r egwyddorion, ac wedi ysgrifennu hyn i lawr fel set o ddeg datganiad clir (un ar gyfer pob egwyddor). Byddai'r datganiadau hyn wedi'u teilwra'n well i fanylion eich prosiect ymgysylltu na'r Egwyddorion Cenedlaethol generig. Yna byddech chi'n dilyn yr un broses ag uchod.

3.

Cam tri: Rhannu'r dysgu

Dechreuwch drwy ysgrifennu trosolwg o'r hyn roedd eich ymgysylltiad yn anelu at ei gyflawni, yr hyn a wnaethoch mewn gwirionedd a gwybodaeth ffeithiol sylfaenol ychwanegol e.e. dyddiadau neu amserlen eich gwaith ymgysylltu, y dulliau a ddefnyddiwyd, grwpiau rhanddeiliaid, a nifer y bobl yr ymgysylltwyd â nhw, y digwyddiadau a gynhaliwyd, ac ati.

Nodwch pwy arall ddylai weld yr adroddiad, a gwnewch yn siŵr ei fod ar gael iddyn nhw. Gallai hyn gynnwys asiantaethau partner a chomisiynwyr neu gyrff ariannu.

Ystyriwch a allai unrhyw randdeiliaid y gwnaethoch chi ymgysylltu â nhw fod eisiau gweld yr adroddiad. Er y bydd angen adborth ar randdeiliaid ar ganlyniadau'r gweithgaredd ymgysylltu bob amser er mwyn dysgu pa wahaniaeth y mae eu cyfraniadau wedi'i wneud, maent yn llai tebygol o fod â diddordeb yn y broses o werthuso'r gwaith ymgysylltu felly efallai na fydd angen i bob un ohonynt weld y gwerthusiad.

Arferion gorau

Gallai arferion gorau fod ar ffurf ymdrech gydweithredol i nodi cynulleidfa ehangach a allai elwa o'r gwerthusiad. Gallai'r gynulleidfa gynnwys amrywiaeth o fudiadau sy'n cynnal gwaith ymgysylltu. Efallai yr hoffech hefyd ystyried cyflwyno'r gwerthusiad mewn gwahanol fformatau wedi'u teilwra i'r gwahanol gynulleidfaoedd.

Atodiad un:

Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a chwestiynau ysgogol ar gyfer gwerthuso cyfatebol

Mae'r adran hon yn cynnig cwestiynau ysgogol i chi eu hystyried wrth lunio eich gwerthusiad. Gan ddibynnu ar y gwaith ymgysylltu rydych chi wedi'i wneud a'r union egwyddor, bydd rhai cwestiynau yn fwy perthnasol nag eraill. Mae'r pecyn cymorth gwerthuso yn trafod y gwahaniaethau mewn nodau, prosesau ac effeithiau o ran yr hyn i'w werthuso. Mae'r tabl hwn yn dwyn ynghyd 'beth i'w werthuso' gyda chwestiynau posibl y gallech eu defnyddio i werthuso gwahanol agweddau ar eich gwaith ymgysylltu.

Egwyddor Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu	**Cwestiynau ysgogol ar gyfer gwerthusiad**		
	Nodau/ allbynnau	**Prosesau**	**Effaith/Canlyniadau**
1. Dylunio eich gwaith ymgysylltu i wneud gwahaniaeth	Pa ddyluniad oedd i'ch gwaith? A wnaethoch chi fynd ati i fesur unrhyw wahaniaethau? Ydych chi'n cynnal ymgynghoriad? Os felly, dylai'r bobl rydych chi'n ymgysylltu â nhw ddylanwadu ar benderfyniadau. Ydych chi'n cydgynhyrchu? Os felly, dylai'r bobl rydych chi'n ymgysylltu â nhw fod â rhan yn y gwaith o ddatblygu canlyniadau neu greu atebion.	Sut gwnaethoch chi hyn?	Pa wahaniaethau mae cyfranogwyr yn eu nodi? Pa wahaniaethau allwch chi eu gweld? Pa wahaniaethau mae asiantaethau partner yn eu nodi? Pa dystiolaeth sydd yna bod y bobl y gwnaethoch chi ymgysylltu â nhw wedi dylanwadu ar gynhyrchu canlyniadau neu atebion neu wedi rhannu wrth gynhyrchu canlyniadau neu atebion?

Egwyddor Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu	**Cwestiynau ysgogol ar gyfer gwerthusiad**		
	Nodau/ allbynnau	**Prosesau**	**Effaith/Canlyniadau**
2. Gwahodd pobl i gymryd rhan, os ydynt yn dewis gwneud hynny	A wnaethoch chi gynnal dadansoddiad o'r rhanddeiliaid? Faint o bobl gafodd eu gwahodd? Faint a gymerodd ran?	Sut cafodd pobl eu gwahodd? Sut gwnaeth pobl gymryd rhan?	Beth a ysgogodd pobl i gymryd rhan?
3. Cynllunio a chynnal eich gwaith ymgysylltu mewn modd amserol a phriodol	Pa weithgareddau cynllunio wnaethoch chi? Gyda phwy?	Pa mor hir wnaethoch chi dreulio'n gwneud beth?	Pa wahaniaeth a wnaeth amseru ac amserlennu i'r cyfranogwyr?
4. Gweithio gyda mudiadau partner perthnasol	A wnaethoch chi wirio a oedd unrhyw un wedi cynnal ymgysylltiad tebyg yn ddiweddar? A wnaethoch chi gysylltu ag unrhyw fudiadau i weld a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cydweithio ar waith ymgysylltu? Faint o fudiadau? Faint oedd yn newydd i chi? Faint o waith allgymorth wnaethoch chi?	Pa waith partneriaeth wnaethoch chi? Sut wnaethoch chi rannu'r broses o wneud penderfyniadau?	Beth yw canlyniadau gweithio gyda chi yn ôl partneriaid? Pa fanteision sydd wedi bod i hyn?
5. Darparu gwybodaeth briodol a dealladwy sy'n rhydd o jargon	Faint o wybodaeth wnaethoch chi ei chynhyrchu am beth? A wnaethoch chi wirio gyda phobl a oedd eich gwybodaeth yn ddigon clir? Pa bobl?	Pa fformatau wnaethoch chi eu defnyddio a pham?	Beth oedd y cyfranogwyr yn ei hoffi am eich cyfathrebiadau a pham?

Egwyddor Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu	**Cwestiynau ysgogol ar gyfer gwerthusiad**		
	Nodau/ allbynnau	**Prosesau**	**Effaith/Canlyniadau**
6. Ei gwneud hi'n hawdd i bobl gymryd rhan	Pa gamau arbennig wnaethoch chi eu cymryd i gyrraedd grwpiau na chlywir eu lleisiau yn aml? Faint gymerodd ran, a beth gymeron nhw ran ynddo?	Pa fath o waith cyfranogi mae eich gwaith wedi'i gynnwys?	Beth wnaeth hi'n hawdd? Beth ellid ei wneud yn wahanol y tro nesaf?
7. Sicrhau bod y profiad o fudd i bobl	Beth wnaethoch chi i geisio sicrhau bod y broses yn brofiad cadarnhaol i bawb a gymerodd ran yn y broses? Faint o bobl ddywedodd eu bod wedi elwa ar beth?	Pa brosesau a helpodd pobl i elwa?	Beth oedd y manteision i'r bobl hynny yn eu barn nhw? Sut maen nhw wedi elwa o'r manteision hyn yn y tymor hir?
8. Sicrhau bod digon o adnoddau ac amser wedi'u neilltuo er mwyn i'ch gwaith ymgysylltu fod yn effeithiol	Oedd gennych chi ddigon o adnoddau (amser, arian, pobl, sgiliau ac ati) i gynnal proses ymgysylltu effeithiol? Pa adnoddau wnaethoch chi eu defnyddio? Faint o amser gymerodd hyn?	Beth wnaethoch chi gyda'r adnoddau i geisio bod yn effeithiol?	Beth yw ystyr 'ymgysylltu effeithiol'? Pam mae'n bwysig i'ch cymunedau?
9. Rhoi gwybod i bobl am effaith eu cyfraniad	A wnaethoch chi ofyn i bobl a oedden nhw eisiau adborth? A wnaethoch chi roi adborth i bawb oedd ei eisiau?	Sut mae pobl wedi cyfrannu ac i beth?	Beth fu effeithiau personol, mudiadol a chymdeithasol ehangach eu hymgysylltiad?
10. Dysgu a rhannu er mwyn gwella eich gwaith ymgysylltu	Ydych chi'n cynnal gwerthusiad o'ch gwaith ymgysylltu? Ble rydych chi wedi rhannu'r dysgu, gyda phwy a faint o bobl oedd yn rhan o hyn?	Beth wnaethoch chi er mwyn dysgu a rhannu? Sut wnaethoch chi gynnwys cyfranogwyr yn y broses o ddysgu a rhannu?	Pa welliannau ydych chi wedi'u nodi ar gyfer y tro nesaf? Beth oedd y canlyniadau ehangach i gyfranogwyr a'r gynulleidfa o safbwynt rhannu eich dysgu?

ATODIAD 2:

Mae'r adran hon yn cynnig astudiaeth achos i ddangos sut mae'r pecyn cymorth wedi'i ddefnyddio'n ymarferol i gynhyrchu gwerthusiad o weithgarwch ymgysylltu.

Astudiaeth Achos: Ymgynghoriad Astudiaeth Hyfywedd Bae Caswell

Rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2024, cynhaliodd Innes Associates[2] ymgynghoriad ar ran Cyngor Abertawe (a ariannwyd gan Lywodraeth y DU, Cronfa Ffyniant a Rennir) ynghylch gwelliannau posibl i Fae Caswell, fel rhan o Astudiaeth Ddichonoldeb.

Cyflogodd Innes Associates ddau ymarferydd ymgysylltu lleol[3] i gynnal agweddau ar waith ymgysylltu cyhoeddus yr astudiaeth.

Mae Bae Caswell yn draeth hynod boblogaidd i drigolion lleol ac ymwelwyr o bell. Mae ar Benrhyn Gŵyr ger Abertawe ac mae’r cymunedau cyfagos yn cynnwys Bishopston, Murton, Manselfield a'r Mwmbwls.

Yn eu briff, tynnodd y cyngor sylw at nifer o feysydd penodol roeddent o’r farn y gallai fod angen eu gwella ond roeddent yn glir nad oedd dim wedi'i benderfynu eto a'u bod yn awyddus i glywed barn amrywiaeth o randdeiliaid ynghylch yr hyn roeddent yn ei ystyried yn flaenoriaethau ar gyfer gwella Bae Caswell.

Roedd y Cyngor hefyd eisiau cyfleu y byddai unrhyw welliannau'n dibynnu ar sicrhau cyllid ychwanegol.

Nod yr ymgynghoriad oedd galluogi creu dogfen waith y gellid ei defnyddio'n strategol i weithredu newidiadau unwaith y byddai cyllid ar gael.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, sef: cyfweliadau un i un, cyfweliadau manwl wedi'u strwythuro'n rhannol (ar-lein ac wyneb yn wyneb), cyfweliadau wyneb yn wyneb byrrach ar y pryd (gyda defnyddwyr y traeth) ac arolwg ar-lein. Cyflogwyd cyfryngwr dibynadwy hefyd i ymgynghori ag un grŵp o randdeiliaid penodol.

[2] https://www.innesassociates.net/

[3] https://www.alainthomasconsultancy.wales/, https://www.mandywilliamsconsulting.cymru/

Egwyddor 1. Dylunio eich gwaith ymgysylltu i wneud gwahaniaeth

Mae ymgysylltu'n cynnig cyfle i hysbysu neu ddylanwadu ar benderfyniadau, polisïau neu wasanaethau.

Mae'r egwyddor hon yn ymwneud â sicrhau bod ymgysylltu yn gwneud gwahaniaeth.

Beth weithiodd yn dda

Ymgynghoriad oedd hwn ac egwyddor allweddol ar gyfer pob ymgynghoriad yw 'peidiwch ag ymgynghori ar yr hyn na allwch ei gyflawni'. Gan y byddai unrhyw welliannau'n ddibynnol ar y Cyngor yn sicrhau cyllid ychwanegol, roedd yn bwysig iawn rheoli disgwyliadau.

Manteisiwyd ar bob cyfle i bwysleisio y byddai angen cyllid ychwanegol ar gyfer unrhyw newidiadau ac na ellid gwneud unrhyw addewidion ar hyn o bryd. Cyflwynwyd y neges hollbwysig hon pan gysylltwyd â chyfranogwyr gyntaf (boed drwy e-bost, drwy gyfryngau cymdeithasol neu wyneb yn wyneb), a'i hailadrodd ar ddiwedd pob rhyngweithiad. Yna, cyfathrebwyd y neges eto pan ddarparwyd adborth yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad. Mae'n anodd iawn rheoli disgwyliadau ond, yn yr achos hwn ni ellid bod wedi gwneud mwy, a'r gobaith yw ein bod wedi bod yn llwyddiannus i raddau helaeth yn hyn o beth.

Arweiniodd y gweithgareddau ymgysylltu at nifer o awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Cafodd y rhain eu cofnodi ar fap o'r safle a brofodd yn ffordd hynod effeithiol o'u cofnodi. Sicrhaodd y gellid cofnodi hyd yn oed awgrymiadau gan un neu ddau o bobl, a oedd yn bwysig gan fod rhai o'r rhain yn ddefnyddiol ac yn gymharol hawdd i'w gweithredu ond y gallent fod wedi'u colli yn hawdd. Daeth themâu cryf i'r amlwg hefyd ynglŷn â materion roedd llawer o bobl eisiau i'r cyngor fynd i'r afael â nhw[4].

Yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, nododd yr ymgynghoriad awydd cryf i gadw nodweddion arbennig Bae Caswell a pheidio â 'gorddatblygu'.

Fe wnaeth yr adroddiad astudiaeth ddichonoldeb terfynol ymateb i'r rhan fwyaf o'r themâu cryf a nodwyd[3] ac roedd yn cynnwys llawer o'r awgrymiadau mwy manwl a wnaed. Mae'r astudiaeth yn darparu tystiolaeth gref bod barn pobl wedi cael ei chlywed, ei chofnodi, a'i throsglwyddo i Gyngor Abertawe. Cafodd yr adroddiad groeso cynnes gan y Cyngor sy'n gwneud cynlluniau i geisio bwrw ymlaen â llawer o'r opsiynau a nodwyd ynddo. Derbyniodd y Cyngor hefyd bwysigrwydd peidio â gorddatblygu ac fel y dywedodd un cyfranogwr 'cadw natur wyllt' Bae Caswell.

Beth na weithiodd cystal/beth fyddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Gweithiodd popeth cystal ag y gallem fod wedi gobeithio o ystyried y cyd-destun.

Sgôr

1	2	3	4	5
DIM ARWYDDION GWIRIONEDDOL O LWYDDIANT	RHAI ARWYDDION O LWYDDIANT	DIGON LLWYDDIANNUS	LLWYDDIANNUS I RADDAU HELAETH	BRON YN GWBL LWYDDIANNUS

[4] Gan nad oeddent yn gyfrifoldeb i Gyngor Abertawe gellid ond nodi pethau fel llygredd dŵr a chysylltiad wi-fi gwael.

Egwyddor 2. Gwahodd pobl i gymryd rhan, os ydynt yn dewis gwneud hynny

Mae gan bobl gyfleoedd i ymgysylltu fel unigolyn neu fel rhan o grŵp neu gymuned, mewn modd cynhwysol a chroesawgar nad yw'n eu gorfodi nac yn eu rhoi o dan bwysau.

Mae'r egwyddor hon yn ymwneud ag ymgysylltu â'r bobl gywir.

Beth weithiodd yn dda

Fe wnaethon ni nodi saith grŵp rhanddeiliaid pwysig a gwahanol a dyfeisio dulliau i ymgysylltu â phob un ohonynt. Roedd y dulliau hyn yn cynnwys: cyfweliadau ar-lein un i un, manwl, rhannol strwythuredig gyda swyddogion yr awdurdod lleol, aelodau etholedig, rhai busnesau sydd wedi'u lleoli ym Mae Caswell, a chynrychiolwyr mudiadau eraill â diddordeb; arolwg ar-lein o drigolion lleol drwy ddau blatfform cyfryngau cymdeithasol cymunedol, cyfweliadau wyneb yn wyneb byrrach, ar y pryd gyda defnyddwyr y traeth a rhai busnesau sydd wedi'u lleoli ym Mae Caswell, a chyfweliadau wyneb yn wyneb manwl, rhannol strwythuredig gyda thrigolion cymuned leol 'oddi ar y grid'. Profodd yr holl ddulliau hyn yn effeithiol.

Gweithiodd yr holl ddulliau'n dda. Defnyddiodd y cyfweliadau lawer o gwestiynau agored i ganiatáu i gyfranogwyr ddweud beth oedd bwysicaf iddynt ac roeddent hefyd yn cynnwys graddfa raddedig (graddfa Likert) i fesur ymatebion a darparu canlyniad clir. Profodd yr arolwg ar-lein yn boblogaidd iawn a derbyniwyd dros 500 o ymatebion. Roedd y cyfweliadau wyneb yn wyneb â defnyddwyr y traeth hefyd yn cynnwys llawer o gwestiynau agored a graddfa Likert ac fe'u cynhaliwyd ar y traeth gan sicrhau ein bod wedi siarad â phobl a oedd yn defnyddio'r traeth mewn gwirionedd.

Beth na weithiodd cystal/beth fyddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Cynhaliwyd y cyfweliadau ar y traeth tuag adeg y Pasg. Yn ddelfrydol, byddent wedi cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r haf pan fyddai mwy o bobl ar y traeth gan gynnwys y rhai a oedd ond yn defnyddio'r traeth yn yr haf. Gallai hyn fod wedi ennyn syniadau ychwanegol ynghylch yr hyn a allai annog defnyddwyr yr haf yn unig i ddefnyddio'r traeth drwy gydol y flwyddyn.

Sgôr

1	2	3	4	5
DIM ARWYDDION GWIRIONEDDOL O LWYDDIANT	RHAI ARWYDDION O LWYDDIANT	DIGON LLWYDDIANNUS	LLWYDDIANNUS I RADDAU HELAETH	BRON YN GWBL LWYDDIANNUS

Egwyddor 3. Cynllunio a chynnal eich gwaith ymgysylltu mewn modd amserol a phriodol

Mae'r broses ymgysylltu yn glir, yn cael ei chyfleu i bawb mewn ffordd resymol sy'n hawdd ei deall, yn digwydd o fewn amserlen resymol, ac yn defnyddio'r dull(iau) mwyaf addas ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.

Mae'r egwyddor hon yn ymwneud â chynllunio'n briodol a chyflawni'n amserol.

Beth weithiodd yn dda

Bu'n rhaid i Innes Associates dendro am yr astudiaeth ddichonoldeb. Roedd briff Cyngor Abertawe i fudiadau tendro yn glir ac yn fanwl iawn a oedd o gymorth i'r broses gynllunio. Nododd amcanion yr astudiaeth, nododd gyllideb debygol, nododd y cyfyngiad allweddol y byddai angen cyllid er mwyn bwrw ymlaen ag unrhyw welliannau a nodwyd gan yr astudiaeth, a darparodd restr o randdeiliaid posibl.

Fe wnaeth yr holl ffactorau uchod helpu'r tîm ymgysylltu i ddatblygu cynllun ymgynghori manwl fel rhan o'r broses dendro. Roedd hyn yn cynnwys cynnal dadansoddiad rhanddeiliaid syml, nodi'r niferoedd roeddem yn anelu at eu cynnwys o bob grŵp rhanddeiliaid (roedd yr amcangyfrif cyllidebol yn ddefnyddiol iawn yn hyn o beth), y dulliau ar gyfer ymgysylltu â nhw, a rhai negeseuon allweddol i'w cyfleu (yn enwedig y byddai unrhyw welliannau'n amodol ar gyllid er mwyn rheoli disgwyliadau).

Nododd y tîm ymgysylltu amserlen glir ar gyfer cyflawni hefyd. Ymgysylltwyd â phob grŵp rhanddeiliaid yn ei dro gyda'r gwaith ymgysylltu wedi'i drefnu i bara tua mis ar gyfer pob grŵp. Dechreuwyd gyda'r rhai hawsaf i ymgysylltu â nhw er mwyn gallu dechrau'n gyflym gan greu rhywfaint amser i ni gynllunio'n fanylach sut i ymgysylltu â'r grwpiau rhanddeiliaid eraill. Rhannodd y tri ymgynghorydd y gwaith rhyngom ni a oedd hefyd yn galluogi cynnydd cyflym ac a oedd yn creu rhywfaint o hyblygrwydd wrth drefnu apwyntiadau.

Cynhyrchwyd adroddiad ar wahân o ganfyddiadau ar gyfer pob grŵp o randdeiliaid cyn gynted ag y cwblhawyd y gwaith ymgysylltu â nhw. Galluogodd hyn i'r wybodaeth gael ei bwydo i mewn i'r broses gynllunio astudiaeth ddichonoldeb fesul cam (gan ei gwneud hi'n haws ei chymhathu) ac yn gyflymach (un neu ddau adroddiad byr bob mis) nag y byddai pe baem wedi aros tan ddiwedd y cyfnod ymgysylltu i gynhyrchu un adroddiad, llawer hirach.

Beth na weithiodd cystal/beth fyddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Dim.

Sgôr

1	2	3	4	5
DIM ARWYDDION GWIRIONEDDOL O LWYDDIANT	RHAI ARWYDDION O LWYDDIANT	DIGON LLWYDDIANNUS	LLWYDDIANNUS I RADDAU HELAETH	BRON YN GWBL LWYDDIANNUS

Egwyddor 4. Gweithio gyda mudiadau partner perthnasol

Mae mudiadau'n cyfathrebu â'i gilydd ac yn cydweithio lle bynnag y bo'n bosibl, er mwyn sicrhau bod amser pobl ac adnoddau'r mudiad yn cael eu defnyddio'n effeithlon.

Mae'r egwyddor hon yn ymwneud â gweithio gyda mudiadau eraill i osgoi dyblygu a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Beth weithiodd yn dda

Roeddem yn effro i'r posibilrwydd o ddarganfod y gallai mudiadau eraill fod wedi cynnal gwaith tebyg neu ategol, fodd bynnag, ni wnaethom neilltuo amser i archwilio hyn yn fanwl oherwydd roeddem o'r farn ei bod yn annhebygol y byddem yn nodi unrhyw bartneriaid addas neu astudiaethau perthnasol blaenorol.

Wrth gynnal y cyfweliadau traeth, clywsom am arolwg defnydd traeth a gynhaliwyd sawl mis ynghynt gan 'fyfyrwyr' ond ni allem ddod o hyd i'r mudiad addysgol dan sylw.

Beth na weithiodd cystal/beth fyddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Yn ddelfrydol, y tro nesaf byddem yn ystyried cynnwys hanner diwrnod o waith yn y gyllideb efallai i gysylltu â mudiadau a allai fod wedi gwneud gwaith tebyg neu ategol. Efallai y byddai hyn wedi ein helpu i ddod o hyd i'r 'arolwg defnyddwyr traeth' er enghraifft. Fodd bynnag, byddai hyn yn cynyddu'r costau ariannol ar gyfer y tendr ac o bosibl yn lleihau'r siawns o lwyddo. Felly byddai angen dod i farn ynghylch y tebygolrwydd o ddod o hyd i fudiadau partner i weithio gyda nhw (manteision gwirioneddol), a'r gwerth y gallai comisiynydd ei roi ar ymgysylltu â mudiadau partner (manteision canfyddedig). Mae'r un ystyriaeth yn berthnasol i werthuso egwyddorion 5, 9, a 10 isod lle byddai cynnydd yn y gyllideb wedi caniatáu arfer gwell.

Sgôr

1	2	3	4	5
DIM ARWYDDION GWIRIONEDDOL O LWYDDIANT	RHAI ARWYDDION O LWYDDIANT	DIGON LLWYDDIANNUS	LLWYDDIANNUS I RADDAU HELAETH	BRON YN GWBL LWYDDIANNUS

Egwyddor 5. Darparu gwybodaeth briodol a dealladwy sy'n rhydd o jargon

Mae gan bobl fynediad hawdd at wybodaeth berthnasol sydd wedi'i theilwra i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'r egwyddor hon yn ymwneud â chyfathrebu mewn ffordd y mae pobl yn ei deall.

Beth weithiodd yn dda

Cymerodd y tîm ymgysylltu ofal i osgoi jargon a chyfathrebu mewn iaith syml a dealladwy. Rydyn ni o'r farn ein bod wedi cyflawni hyn.

Roedd un o'r tîm yn siaradwr Cymraeg rhugl ac felly'n gallu cynnal cyfweliadau yn y Gymraeg gydag unrhyw un a oedd eisiau hyn.

Beth na weithiodd cystal/beth fyddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Fe wnaethon ni flaenoriaethu cost-effeithiolrwydd dros gyfathrebu mewn gwahanol ieithoedd neu fformatau. Cynhyrchwyd ein holl ddeunyddiau yn Saesneg yn unig ac, er i ni ddefnyddio iaith syml a dealladwy, ni wnaethom, er enghraifft, ddarparu fersiynau Hawdd eu Darllen.

Credwn mai dyma oedd y dewis cywir yng nghyd-destun y gyllideb oedd ar gael a chyfansoddiad y boblogaeth leol a rhanddeiliaid allweddol eraill. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn fwy cynhwysol ac yn arfer gwell pe baem wedi cynhyrchu fersiynau dwyieithog (Cymraeg-Saesneg), a Hawdd eu Darllen o'n deunyddiau o leiaf.

Sgôr

1	2	3	4	5
DIM ARWYDDION GWIRIONEDDOL O LWYDDIANT	RHAI ARWYDDION O LWYDDIANT	DIGON LLWYDDIANNUS	LLWYDDIANNUS I RADDAU HELAETH	BRON YN GWBL LWYDDIANNUS

Egwyddor 6. Ei gwneud hi'n hawdd i bobl gymryd rhan

Nodi a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau fel bod pobl yn gallu ymgysylltu'n hawdd.

Mae'r egwyddor hon yn ymwneud ag ymgysylltu â phobl nas clywir eu lleisiau yn aml.

Beth weithiodd yn dda

Roedden ni'n ymwybodol o gymuned oddi ar y grid ger Bae Caswell. Ein prif ddull o ymgysylltu â thrigolion lleol oedd arolwg ar-lein ac ni wyddom a fyddai'r gymuned hon yn barod i ddefnyddio trydan gwerthfawr i lenwi arolwg o'r fath. Roedden ni hefyd yn meddwl tybed a fyddai ffordd o fyw amgen y gymuned hon yn golygu y gallai fod ganddynt flaenoriaethau gwahanol ar gyfer gwelliannau ym Mae Caswell. Am y rhesymau hyn, penderfynon ni gyflogi preswylydd o'r gymuned i weithredu fel 'cyfryngwr dibynadwy' a chynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb â'i chymdogion.

Gweithiodd hyn yn dda ac roedden ni'n gallu cynnwys adrannau ar wahân i adlewyrchu barn y gymuned hon yn adroddiad yr ymgynghoriad. Trodd allan fod eu blaenoriaethau yn bennaf (er nad yn gyfangwbl) yn unol â gweddill y gymuned leol. Felly, arweiniodd y defnydd o gyfryngwr roedd pobl yn ymddiried ynddi at ffordd ddefnyddiol o driongli ffynhonnell a dull mewn modd ategol, gan ychwanegu hyder at ganfyddiadau'r arolwg.

Mae Innes Associates wedi'i leoli yn Llundain ond fe wnaethant gyflogi ymgynghorwyr lleol yn fwriadol i arwain y broses ymgysylltu. Felly roedd yr ymgynghorwyr yn ymwybodol o'r gymuned oddi ar y grid hon na fyddai wedi cael ei nodi fel arall o bosibl. Roedd yr ymgynghorwyr lleol hefyd yn gallu dod â gwybodaeth dda am yr ardal leol a'r gymuned oedd yn helpu gyda dadansoddiad rhanddeiliaid, hwyluso rhai cysylltiadau, a sicrhau mewnwelediadau ychwanegol.

Roedden ni'n ffodus bod ysgol syrffio arbenigol ar gyfer pobl ag anableddau wedi'i lleoli ym Mae Caswell. Roedd hyn yn caniatáu inni gynnwys persbectif y grŵp hwn o randdeiliaid a allai fod wedi bod yn anoddach i ni ymgysylltu ag ef fel arall.

Beth na weithiodd cystal/beth fyddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Dim.

Sgôr

1	2	3	4	5
DIM ARWYDDION GWIRIONEDDOL O LWYDDIANT	RHAI ARWYDDION O LWYDDIANT	DIGON LLWYDDIANNUS	LLWYDDIANNUS I RADDAU HELAETH	BRON YN GWBL LWYDDIANNUS

Egwyddor 7. Gweithio gyda mudiadau partner perthnasol

Mae ymgysylltu yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder yr holl gyfranogwyr.

Mae'r egwyddor hon yn ymwneud â sicrhau bod pob cyfranogwr yn cael profiad cadarnhaol.

Beth weithiodd yn dda

Ni wnaethom flaenoriaethu pawb a oedd yn elwa o'r profiad ond yn hytrach ein nod oedd sicrhau bod pawb yn cael profiad cadarnhaol drwy fod yn barchus a darparu gwybodaeth gywir bob amser, gan gynnwys ynghylch yr ansicrwydd o ran sicrhau cyllid yn y dyfodol.

Mae un enghraifft o fudd i gyfranogwr, sef ein bod wedi cyflogi preswylydd lleol o gymuned oddi ar y grid i gynnal rhai cyfweliadau gyda'i chymdogion. Roedd ganddi rywfaint o brofiad blaenorol o gyfweld ond ychwanegodd y cyfle hwn at ei phrofiad ac yna roedden ni'n gallu ei chyflogi i gynnal cyfweliadau ychwanegol gyda defnyddwyr y traeth. Yn ddiweddarach daeth yn aelod llawn o'r tîm ar gyfer ymgynghoriad dilynol a gynhaliwyd gennym. Roedd hyn o fudd i'r broses ymgysylltu oherwydd efallai na fyddem wedi gallu cyrraedd y grŵp hwn hebddi, ac fe enillodd hi brofiad a arweiniodd yn uniongyrchol at gyflogaeth i'r dyfodol.

Beth na weithiodd cystal/beth fyddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Rydym o'r farn nad yw'r egwyddor hon yn cyd-fynd yn dda iawn â chyd-destun yr ymgynghoriad hwn.

Roedd gan bobl eisoes y wybodaeth angenrheidiol i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ac roeddent wedi'u cymell i wneud hynny oherwydd eu bod am wella a diogelu ardal oedd yn bwysig iddynt. Felly, nid oedd angen unrhyw wybodaeth na hyfforddiant pellach arnynt, ac nid oedd angen unrhyw gymhellion arnynt chwaith.

Credwn y gallai fod mwy o angen i ddarparu gwybodaeth neu hyfforddiant pan ofynnir i gyfranogwyr gymryd mwy o rôl gwneud penderfyniadau, er enghraifft os ydynt yn rhan o waith cydgynhyrchu. Byddai mwy o angen am gymhellion pe bai cyfranogwyr yn amharod i ymgysylltu am unrhyw reswm. Nid yw'r ffactorau hyn yn berthnasol yma.

Sgôr

1	2	3	4	5
DIM ARWYDDION GWIRIONEDDOL O LWYDDIANT	RHAI ARWYDDION O LWYDDIANT	DIGON LLWYDDIANNUS	LLWYDDIANNUS I RADDAU HELAETH	BRON YN GWBL LWYDDIANNUS

Egwyddor 8. Sicrhau bod digon o adnoddau ac amser wedi'u neilltuo er mwyn i'ch gwaith ymgysylltu fod yn effeithiol

Neilltuo digon o amser i gynllunio'r penderfyniad, polisi neu ddyluniad gwasanaeth ac ymgysylltu'n ystyrlon ar y penderfyniad, y polisi neu'r dyluniad gwasanaeth hwnnw. Mae hyfforddiant, arweiniad, cymorth ac adnoddau ariannol priodol yn galluogi pob cyfranogwr i ymgysylltu'n effeithiol, gan gynnwys cyfranogwyr o'r gymuned a staff.

Mae'r egwyddor hon yn ymwneud ag ymgysylltu gyda digonedd o adnoddau.

Beth weithiodd yn dda

Fel y nodwyd o dan Egwyddor 3, roedd y broses dendro yn caniatáu i ni lunio a chostio cynllun ac amserlen ymgysylltu manwl. Roedd ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd i dendrwyr gan Gyngor Abertawe yn gymorth mawr i'r broses hon.

Fel y nodwyd uchod, nid oedd angen unrhyw hyfforddiant na gwybodaeth ychwanegol.

Felly roedd y gyllideb yn galluogi holl elfennau craidd proses ymgynghori effeithiol a arweiniodd at y canlyniadau a ddymunwyd.

Beth na weithiodd cystal/beth fyddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Roedd y gyllideb a gynlluniwyd yn caniatáu i'r gwaith ymgysylltu gael ei gynnal yn effeithiol ac ar amser. Byddai cyllid ychwanegol wedi caniatáu archwiliad systematig o unrhyw synergedd posibl y gellid ei gael o weithio gyda mudiadau eraill (Egwyddor 4), cynhyrchu deunyddiau dwyieithog a Hawdd eu Darllen (Egwyddor 5), a chyllid wedi'i warantu ar gyfer adborth a gwerthuso (gweler Egwyddorion 9 a 10 isod).

Fodd bynnag, fel y nodwyd o dan Egwyddor 4, rhaid oedd dod i farn ynghylch manteision posibl darparu ar gyfer y rhain yn y gyllideb yn erbyn y risgiau o gostau uwch sy'n ei gwneud hi'n llai tebygol y byddai'r tendr yn llwyddiannus.

Sgôr

1	2	3	4	5
DIM ARWYDDION GWIRIONEDDOL O LWYDDIANT	RHAI ARWYDDION O LWYDDIANT	DIGON LLWYDDIANNUS	LLWYDDIANNUS I RADDAU HELAETH	BRON YN GWBL LWYDDIANNUS

Egwyddor 9. Rhoi gwybod i bobl am effaith eu cyfraniad

Rhoi adborth amserol i gyfranogwyr ar eu cyfraniad, a'r penderfyniadau neu'r camau a gymerwyd o ganlyniad, gan ddefnyddio dulliau a ffurfiau o adborth sy'n ystyried dewisiadau cyfranogwyr.

Mae'r egwyddor hon yn ymwneud â rhoi adborth i'r bobl rydyn ni'n ymgysylltu â nhw.

Beth weithiodd yn dda

Defnyddiwyd y fformat 'Dywedoch chi – gwnaethom ni (neu ni wnaethom ni oherwydd....)' i roi adborth.

Fe wnaethon ni gadw'r dywediad 'gonestrwydd a dewrder'[5] mewn cof wrth baratoi'r adborth. Anaml iawn y mae'n bosibl gweithredu ar bob awgrym a wneir ac mae'n anochel y bydd rhai pobl yn siomedig, hyd yn oed yn flin pan fydd rhywbeth yn bwysig iawn iddynt ac nad oes neb yn gweithredu arno. Fodd bynnag, mae bob amser yn well bod yn onest a rhoi esboniad ar unwaith nag osgoi'r broblem a chaniatáu i ansicrwydd a rhwystredigaeth gronni.

Cynhyrchwyd crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad ('dywedoch chi') gan y tîm ymgysylltu a'i ddarparu i Gyngor Abertawe a ymatebodd ('gwnaethom ni neu ni wnaethom oherwydd ....'). Arweiniodd hyn at ddogfen gymharol fyr (5 tudalen) yn nodi'n glir y prif awgrymiadau ar gyfer gwella ac ymateb Cyngor Abertawe.

Dywedodd Cyngor Abertawe nad oeddent mewn sefyllfa i weithredu ar rai awgrymiadau, er eu bod yn gwybod na fyddai hyn yn boblogaidd; rhoesant hefyd y rhesymau pam na allent, neu pam nad oeddent yn teimlo ei bod yn briodol iddynt weithredu arnynt. I'r gwrthwyneb, roedd modd iddynt ddweud bod llawer o awgrymiadau i'w harchwilio ymhellach a hefyd eu bod yn derbyn yr angen i gadw nodweddion arbennig yr ardal. Felly roedd yr adborth yn onest ac yn ddewr ac rydym o'r farn y bydd pobl yn teimlo bod eu lleisiau wedi cael eu clywed.

Fe wnaethon ni fabwysiadu'r egwyddor o ddefnyddio'r un dulliau adborth ag a ddefnyddiwyd gennym i ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyhyd ag y bo modd.

Gofynnwyd i'r rhai a gafodd eu cyfweld wyneb yn wyneb a oeddent am dderbyn adborth ac os felly, gofynnwyd iddynt ddarparu cyfeiriad e-bost. Roedd hyn yn caniatáu inni anfon yr adborth atynt yn uniongyrchol.

Postiwyd neges ar yr un grwpiau cyfryngau cymdeithasol roeddem yn eu defnyddio i ymgysylltu â thrigolion lleol, gan ganiatáu i bobl gael mynediad at y crynodeb 'Dywedoch chi - gwnaethom ni'.

Cynhyrchwyd graffeg gyda fersiwn fyrrach o'r crynodeb 'dywedoch chi - gwnaethom ni' a'i osod ym Mae Caswell i ddefnyddwyr y traeth ei weld.

[5] Wedi'i briodoli i Lee Hind, cyfranogwr yng nghwrs ymgysylltu cyhoeddus achrededig CGGC ym mis Chwefror 2024.

Beth na weithiodd cystal/beth fyddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Roeddem am wneud y tendr cychwynnol mor gost-effeithiol â phosibl, felly ni chynhwyswyd cyllideb ar gyfer adborth. Roeddem yn gobeithio gallu dod o hyd i arbedion cost wrth i ni weithredu'r cynllun ymgysylltu a defnyddio'r rhain i ariannu adborth a gwerthuso (gweler isod). Llwyddom i wneud yr arbedion hyn a sicrhawyd bod digon o gyllid ar gael at y dibenion hyn. Fodd bynnag, yn y dyfodol byddai'n arfer da cynnwys cyllideb ar gyfer adborth.

Sgôr

1	2	3	4	5
DIM ARWYDDION GWIRIONEDDOL O LWYDDIANT	RHAI ARWYDDION O LWYDDIANT	DIGON LLWYDDIANNUS	LLWYDDIANNUS I RADDAU HELAETH	BRON YN GWBL LWYDDIANNUS

Egwyddor 10. Dysgu a rhannu er mwyn gwella eich gwaith ymgysylltu

Monitro profiad pobl o'r broses ymgysylltu, ynghyd â'r hygyrchedd, y cynhwysiant a'r amrywiaeth, a'r allbynnau a'r canlyniadau. Rhannu'r gwersi a ddysgir o'r gwerthusiad er mwyn llywio gwaith ymgysylltu yn y dyfodol.

Mae'r egwyddor hon yn ymwneud â gwerthuso gwaith ymgysylltu.

Beth weithiodd yn dda

Cynhaliodd aelod arweiniol o'r tîm ymgysylltu werthusiad o'r broses ymgysylltu gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Wedyn rhannwyd ei werthusiad gydag aelodau staff arweiniol yr astudiaeth ddichonoldeb yn Inness Associates a Chyngor Dinas Abertawe ynghyd ag ail aelod o'r tîm ymgysylltu. Cafwyd sylwadau ganddynt ar y gwerthusiad drafft a gafodd ei ddiwygio.

Yna, rhoddwyd fersiwn derfynol y gwerthusiad i Gyngor Dinas Abertawe, Innes Associates a'r arbenigwyr ymgysylltu lleol i gyfeirio ati a dysgu oddi wrtho yn y dyfodol.

Beth na weithiodd cystal/beth fyddem yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf.

Fel gydag egwyddor 9, ni ddyrannwyd cyllideb ar gyfer gwerthuso. Byddai'n arfer gwell i gynnwys un yn y dyfodol.

Dosbarthwyd y gwerthusiad drafft am sylwadau gan randdeiliaid mewnol allweddol yn unig. Byddai wedi bod yn arfer gwell cynnwys rhanddeiliaid eraill a chynnwys pawb mewn proses ryngweithiol o werthuso, ond nid oedd adnoddau'n caniatáu hyn.

Unwaith eto, dim ond i randdeiliaid mewnol y dosbarthwyd y gwerthusiad terfynol, byddai wedi bod yn arfer gwell ei ddosbarthu'n ehangach[6].

Sgôr

1	2	3	4	5
DIM ARWYDDION GWIRIONEDDOL O LWYDDIANT	RHAI ARWYDDION O LWYDDIANT	DIGON LLWYDDIANNUS	LLWYDDIANNUS I RADDAU HELAETH	BRON YN GWBL LWYDDIANNUS

[6] Wrth gwrs, mae'r hyn a ddysgwyd o'r gwerthusiad wedi'i rannu'n ehangach oherwydd ei fod wedi'i gynnwys ym mhecyn cymorth CGGC i werthuso gwaith ymgysylltu, ond ni chynlluniwyd hyn fel rhan o'r ymgynghoriad.